



Ysgol Gymraeg Pontardawe

Datganiad Cenhadaeth

Ein nod yw meithrin siaradwyr Cymraeg y dyfodol - dinasyddion fydd yn meddu ar hunan ddisgyblaeth, ymroddiad, parch a balchder at ein hiaith a'n hetifeddiaeth ar hyd eu bywydau. Ymrwymwn fod pob disgybl yn mwynhau addysgu a dysgu sy'n eu hysbrydoli i lwyddo, mewn cymuned addysg ddiogel, gartrefol, gydweithredol ac yn anelu at fod yn wych, lle mae potensial pob plentyn yn cael ei ddatblygu. Anogir pob aelod i gyrraedd ei lawn botensial trwy ddarparu profiadau heriol, ymestynnol fel y gall gyfrannu'n llawn ac yn hyderus i gymdeithas ddwyieithog.

Nodau ac Amcanion

Ein nod yw sicrhau fod:

- Ein holl randdeiliaid yn magu balchder yn yr iaith Gymraeg, ein diwylliant a'n cenedl.
- Awyrgylch hapus, cartrefol a diogel yn bodoli a bod pob plentyn yn cael ei annog i chwarae rôl flaenllaw a gweithredol ym mywyd yr ysgol
- Pob disgybl yn derbyn y cyfle i gyrraedd ei lawn botensial yn academiaidd, yn gymdeithasol, yn gorfforol, yn ysbrydol a moesol
- Y disgybl yn ganolog i'r broses o ddysgu a bod cyfaniad pob unigolyn yn cael ei barchu.
- Pwyslais ar ddatblygu sgiliau personol megis hunan hyder, hunan fynegiant, hunan barch, parch at eraill, dyfalbarhad, sgiliau arwain a sgiliau datrys problemau o gychwyn eu hamser yn yr ysgol.
- Disgyblion wedi eu paratoi am fywyd yn yr 21^{ain} ganrif trwy ymestyn eu medrau mewn cymhwysedd digidol wrth gymhwyso, defnyddio ac ehangu'r sgiliau yma o fewn yr ysgol gyfan a thra'n datblygu sgiliau ysgogol a chymdeithasol
- Cysylltiadau cryf â'r gymuned leol, a dechrau paratoi plant i fod yn oedolion cyfrifol yn eu cymunedau a datblygu'n ddinasyddion byd eang.

Gwerthoedd

Ein gwerthoedd sy'n ein harwain yn ein bywyd o ddydd i ddydd yn yr ysgol.

Credwn mewn:

- balchder yn ein hiaith a'n diwylliant
- gonestrwydd, cwrteisi a pharch at eraill
- hunan ddisgyblaeth
- disgwiliadau uchel a chyfle cyfartal i bawb
- dyfalbarhad ac ymroddiad i'n gwaith

*Datblygu pob dawn
Ar daith drwy'r iaith*